




Buchedd Bangor



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

**ADFENT A'R
NADOLIG
2023-2024
ADVENT &
CHRISTMAS
2023-2024**

**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

**Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor**



**CYLCHGRAWN
CADEIRLAN
DEINIOL SANT
YM MANGOR
THE MAGAZINE
OF SAINT
DEINIOL'S
CATHEDRAL
IN BANGOR**

3.12.2023-3.2.2024

RHAD AC AM DDIM

EWCH Â CHOPIAU I'W RHANNU

FREE

PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

Croeso Welcome

Garchys


Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o Fuchedd Bangor, cylchgrawn Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Mae "ein bywyd ar y cyd" ar ei ehangaf yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'n fraint croesawu cymaint o ysgolion, elusennau a sefydliadau i'r Gadeirlan yn ystod yr Adfent wrth iddynt ddathlu'r Nadolig, diolch i'w cefnogwyr, a chodi arian. Mae ein defodau Nadolig ni ein hunain yn llenwi'r Gadeirlan â wynebau cyfarwydd a newydd. Ac mae ein helusen Nadolig – eleni, Shelter Cymru – yn lleoli ein bywyd a'n tystiolaeth yn gadarn yng nghyd-destun anghenion a gobeithion ein bywyd ar y cyd yn ein cymuned a'n cynefin.

Fel arfer, dyma eich gwahoddiad i fod yn rhan lawn o'r holl ddefodau a dathliadau a amlinellir yn y rhifyn hwn o **Fuchedd Bangor**, ac i fod yn rhan o'r "cyfunoldeb" sy'n helaethu ac yn dyfnhau yma dros dreigl y tymhorau. I'r rhai sy'n rhoi mor hael i gynnal y bywyd hwnnw ar y cyd, fy niolch. Ac i'r rhai sy'n newydd iddo, ac hyd yn oed yn croesi ein trothwy y tro cyntaf y Dolig hwn, croeso i'n cymuned a'n pererindota coeth, gwir, gonest ar lwybrau ffydd, gobraith a chariad.



Welcome to this latest issue of **Buchedd Bangor**, the magazine of **Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are those medieval collections of works telling the story of the Age of the Saints.


Buchedd Bangor is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

"Our life together" feels at its most expansive at this time of year. It's our privilege to welcome so many schools, charities and organisations to the Cathedral during Advent as they come to celebrate Christmas, to thank their supporters, and to raise funds. Our own Christmas observances fill the Cathedral with faces familiar and new. And our Christmas Charity – this year, Shelter Cymru – locates our life and witness firmly in the context of the needs and hopes of our life together in our city and community.

As ever, this is your invitation to be fully involved in all of the observances and celebrations outlined in this edition of **Buchedd Bangor**, and to be part of that "togetherness" that becomes broader and deeper here each passing season. To those who sustain that common life, my thanks. And to those new to it, even crossing our threshold the first time this Christmas, welcome to our community and our rich, beautiful, honest pursuit of faith, hope and love.

*Gyda hysbysu,
Siôn*

**Oddi wrth yr
Is-Ddeon
From the
Sub-Dean
Canon Siôn
Rhys Evans**



Paned hefo...

Lesley Horrocks


Ym mhob rhifyn o **Fuchedd Bangor**, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan. Y tro hwn, cawn baned â Lesley Horrocks. Mae Lesley i'w gweld yn rheolaidd yn croesawu pobl i'r Gadeirlan ar foreau Sul, ac yn gynharach eleni cafodd ei gosod yn un o'n Canoniaid Gwaddol.

Aeth **Chris Dearden** i gyfarfod â Lesley yng nghaffi Domu gyferbyn â'r gadeirlan i ofyn beth mae'r lle yn ei olygu iddi, a beth mae hi'n bwriadu ei wneud fel Canon Gwaddol newydd.

“Canon Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor” – mae'n deitl mawreddog, ac yn gwneud i ti swnio fel dy fod bron yn rhan o ffabrig yr adeilad ei hun! Ond wyt ti wastad wedi bod yn rhan o'r gynulleidfa yma?

Ces i fy ngeni yn Essex a ches i fy magu yno, ond mae rhywbeth sydd wastad wedi fy nenu i a'm teulu i Ogledd Cymru. Fe wnaeth fy rhieni gyfarfod am y tro cyntaf yn yr ysgol ym Mae Colwyn, ar ôl iddyn nhw gael eu hadleoli yno dros dro yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Syrthiodd y ddau mewn cariad â Gogledd Cymru, gan ddychwelyd flynyddoedd yn ddiweddarach i fyw yn Nolwyddelan. Roedd fy mrawd yn fynyddwr brwd, ac roedd wedi gwirioni ar ei ymweliad cyntaf ag Eryri! Pan oeddwn i'n ymweld â fy rhieni, roeddem yn aml yn galw i mewn i'r Gadeirlan ym Mangor i oleuo kannwyll a gwerthfawrogi'r heddwch a'r llonyddwch y mae'n eu cynnig.

Gweithio i M&S oeddwn i pan ddes i i Gymru – yn eironig, doedd ganddyn nhw ddim cangen ym Mangor ar y pryd. Fy swydd olaf gyda nhw oedd ym maes gwasanaethau ariannol, wedi'i lleoli yng Nghaer. Roeddwn i'n byw ym Mhenyffordd ger yr Wyddgrug ar y pryd ac fe wnes i gwrdd â fy ngŵr, Fred, wrth hwylio yng Nghonwy. Yna fe wnes i sefydlu The Boatshed Sailmakers gyda fy llysfab, Stephen, ac ar hyn o bryd rwy'n gweithio'n rhan-amser i lard Gychod Dinas yn y Felinheli.



Getting to know...

Lesley Horrocks

In each edition of **Buchedd Bangor**, we meet another member of the Cathedral community. This time, we get to know Lesley Horrocks. Lesley is a regular sight welcoming people to the Cathedral on Sunday mornings, and earlier this year was installed a lay Foundation Canon of the Cathedral.

Chris Dearden met up with Lesley in Domu Café opposite the Cathedral to ask what the place means to her, and what she plans to do as a newly installed Foundation Canon.





Atyniad magnetig bron i'r ardal hon, ac i Gadeirlan Deiniol Sant?

Yn bendant – ond mae'n rhywbeth dwyochrog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gwirfoddoli yn y siop, wedi dod yn un o Stiwardiaid y Gadeirlan ac wedi gwneud dyletswyddau Ystlyswr. Ond mae'r Gadeirlan wedi bod yma i mi hefyd. Pan fu farw fy mrawd a fy ngŵr, fe ges i gefnogaeth anhygoel gan Kathy Jones, y Deon bryd hynny, ac eraill yn nheulu'r Gadeirlan. Yn ogystal â'r adeilad hardd, fe wnaeth i mi sylweddoli pa mor gryf yw'r gymuned sydd gennym ni yma.

Y dyddiau hyn, bydd pobl yn dy adnabod di fel un o'r bobl yng nghefn y Gadeirlan yn dosbarthu taflenni gwasanaeth – ar y dechrau – a gwin – ar y diwedd! Ond beth fyddi di'n ei wneud fel Canon Gwaddol lleyg?

Yn ei hanfod, mae'n golygu bod yn rhan o'r Cabidwl, sef corff llywodraethu'r Gadeirlan. Rydyn ni'n rheoli'r cyllid ac yn helpu i ddatblygu cynlluniau tymor hir y Gadeirlan. Mae llawer o'r Cabidwl yn offeiriaid, wrth gwrs, ac rwy'n gweld fy rôl i, yn benodol, fel un a fydd yn dod â phersbectif lleyg a, gobeithio, yn adlewyrchu barn y gynulleidfa, gwirfoddolwyr y Gadeirlan a'r gymuned ehangach. Fy argraff gyntaf yw bod aelodau'r Cabidwl yn agored i syniadau newydd ac rwy'n sicr yn teimlo'n gyfforddus yn tynnu sylw at feysydd lle gallewn ni wneud yn well.

...ac a oes meysydd lle gallewn ni wneud yn well?

Gallewn ni wneud mwy o hyd i estyn allan i'r gymuned ym Mangor a thu hwnt. Mae'n rhywbeth rydyn ni wedi gweithio'n galed iawn i'w wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae angen i ni barhau

“Canon of Saint Deiniol’s Cathedral in Bangor” – it’s a grand title, and makes you sound like you’re almost part of the fabric of the building itself! But have you always been part of the congregation here?

I was actually born in Essex and grew up there but there’s something which has continually drawn me and my family to North Wales. My parents first met in school in Colwyn Bay, having been temporarily relocated there during the Second World War. They both fell in love with North Wales, returning years later to live in Dolwyddelan. My brother was a serious mountaineer – his first visit to Eryri had him hooked! When I was visiting my parents, we often used to call in to the Cathedral in Bangor to light a candle and appreciate the peace and tranquillity it has to offer.

My route to Wales came through working for M&S – who ironically didn’t have a branch in Bangor at the time. My last post with them was in financial services, based in Chester. I was living in Penyffordd near Mold at the time and met my husband, Fred, while sailing in Conwy. I then co-founded The Boatshed Sailmakers with my stepson, Stephen and currently work part-time for Dinas Boatyard in y Felinheli.

Almost a magnetic pull to this area, and to Saint Deiniol’s Cathedral?


Absolutely – but it’s a two-sided thing. In recent years, I have volunteered in the shop, become a Cathedral Steward and done Sidesperson duties. But the Cathedral has also been here for me. When my brother and my husband died, Kathy Jones, the former Dean, and others in the cathedral family were amazing in their support. It made me realise what a strong community we have here, as well as a beautiful building.

Nowadays, people will know you as one of the people at the back of the Cathedral handing out service sheets – at the start – and drinks – at the end! But what will you be doing as a lay Foundation Canon?

It essentially means being part of the Chapter, which is the Cathedral’s governing body. We manage the finances and help develop the Cathedral’s long term plans. Many of the Chapter are priests, of course, and I see my role in particular as bringing a lay perspective and hopefully reflecting the views of the congregation, the Cathedral volunteers and the wider community. My first impression is that Chapter members are open to new ideas and I certainly feel comfortable to flag up areas in which we could do better.

...and are there areas where we can do better?

We could still do more to reach out to the community in Bangor and beyond. It’s something we’ve worked really hard on in the last two



i wneud hynny. Mae'n fy mhoeni i fod pobl yn dod i ddigwyddiad yn y Gadeirlan ac yn dweud eu bod nhw wedi byw ym Mangor ers blynyddoedd, ond erioed wedi bod yma. Gall fod am bob math o resymau – mae rhai yn credu bod y Gadeirlan yn rhy ffurfiol o bosibl, neu efallai eu bod yn poeni y bydd rhywun yn dod atyn nhw ac eisiau eu troi at grefydd ar unwaith!

Nid oes dim o hynny'n wir, felly mae angen i ni wneud mwy i estyn allan i'r gymuned ym Mangor, hwyluso mwy o ddigwyddiadau cymunedol efallai; diwrnodau agored efallai i annog pobl i gymryd rhan.

Gall y Cabidwl ddim gwneud hynny os mai dim ond siop siarad ydi o. Sut gallwn ni wneud i'r fath yna o beth ddigwydd mewn gwirionedd?

Mae siarad yn bwysig – ond mae gwrando yr un mor bwysig! Mae'r Cabidwl yn dda am gyfnewid a datblygu syniadau. Mae'n bwysig cael sgysiau gonest am faterion hyd yn oed os gall hynny deimlo'n anodd. Mae hefyd yn bwysig parhau i gyfathrebu'n rheolaidd a gwrando ar y gynulleidfa a defnyddio'r cyfoeth o brofiad sydd ganddyn nhw i'w gynig.

Nid dim ond gwaith y Cabidwl yw estyn allan i bobl Bangor – mae'n waith i bawb sydd yma. Ac mae'n ymwneud â siarad a gwrando. Pregethodd Josie Godfrey, ein His-Ganon, bregeth bwerus yn gynharach eleni – a oedd hefyd yn y rhifyn diwethaf o **Fuchedd Bangor** – lle dywedodd bod angen i ni i gyd fod yn well am siarad am yr hyn yr ydym yn ei gredu.


Fe wnes i wrando ar y bregeth honno a sylweddolais ei bod hi'n iawn. Mae pobl yn dweud wrtha' i, "Doeddwn i ddim yn sylweddoli dy fod yn grefyddol", ond pan rwy'n dweud yn bositif, "Ydw, dwi'n Gristion", maen nhw'n dechrau gofyn mwy o gwestiynau dyrys – beth sy'n ei wneud mor dda? Beth sy'n digwydd yn y Gadeirlan? A all unrhyw un fynd i'w gwasanaethau?

Gallwn ni i gyd wneud y math hwnnw o gysylltiad personol â rhywun allan yna, a dyna fydd yn tyfu teulu ein cadeirlan.

Rwy't ti'n frwd iawn dros Gadeirlan Deiniol Sant, a'r bobl yma. Beth sy'n ei gwneud mor arbennig?

Mae'r Gadeirlan yn lle anhygoel i stopio a rhoi trefn ar eich bywyd am eiliad. P'un a ydych chi wedi cael diwrnod da, diwrnod caled neu'n teimlo dan straen, mae'n lle o heddwch ac yn lle diogel ac mae'n rhoi ymdeimlad gwych o berthyn.

Mae'n teimlo fel petai Duw yn defnyddio'r waliau cerrig i gadw'r byd hyd braich am eiliad. Gallwch chi glywed y byd yn mynd heibio tu allan, ond mae fel petai'r sain wedi cael ei thro i lawr ar bryderon y byd. Mae'n lle diogel, ac yn lle o heddwch, ond mae'n lle y mae angen i ni ei rannu ag eraill yn y blynyddoedd sydd i ddod. **[B]**



years and we need to keep that going. It worries me that people come to a function in the Cathedral and say they've lived in Bangor for years, but never set foot in the place. It can be for all sorts of reasons – some perceive the Cathedral may be too formal, or maybe they're worried that they'll be approached by someone who wants to instantly convert them!

None of that is true, so we need to do more to reach out to the community of Bangor, perhaps facilitate more community events; maybe open days to encourage people to become involved.

The Chapter can't achieve that if it's just a talking shop though. How do we actually make that sort of thing happen?

Talking is important – though listening is equally important! The Chapter is good at exchanging and developing ideas. It's important to have honest conversations about matters in hand even if that may feel difficult. It is also important to continue to communicate regularly and listen to the congregation and to utilise the wealth of experience that is has to offer.

Reaching out to the people of Bangor isn't just the job of the Chapter – it's the job of everyone here. And it does actually come down to talking and listening. Josie Godfrey, our Minor Canon, preached a powerful sermon earlier this year – which was also in the last edition of **Buchedd Bangor** – where she said we all need to be better at speaking about what we believe.

I listened to that and realised she was right. People say to me, "I didn't realise you were religious," but when I positively say, "Yes, I am a Christian," they start asking more searching questions – what makes it so good? What happens at the Cathedral? Can anyone go to their services?

We can all make that sort of personal connection with someone out there, and that's what will grow our Cathedral family.

You've a huge amount of enthusiasm for Saint Deiniol's Cathedral, and the people here. What makes it so special?

Saint Deiniol's Cathedral is an amazing place to stop and declutter your life for a moment. Whether you've had a good day, a tough day or are just stressed, it's a place of peace and a place of safety and it affords a great sense of belonging.

It feels as if God uses the stone walls to keep the world at arm's-length for a moment. You can hear the world going by outside, but it's as if the volume has been turned down on worldly worries and cares. It's a safe space, and a place of peace, but it's a place we need to share with others in the years to come. **[B]**

Sut ddaru chi newid y flwyddyn ddwytha?



Dwi wastad wedi bod isho bod yn berffaith. Dydw i ddim yn golygu bod yn berffeithydd am waith a thasgau, er bod hynny'n duedd; na chwaith yn golygu rhyw ymdrechu am gyfaredd cymdeithasol neu ymddangosiadau allanol.

Dwi'n golygu fy mod i bob amser wedi bod eisiau bod yn berffaith yn of fy hun, yn siŵr pwy ydw i, yn hyderus yn y ffordd dwi'n fy neall fy hun, yn wrthrychol resymegol yn y modd y byddai'n gwneud synnwyr o'r byd. Dwi'n bob amser di bod eisiau i'm modolaeth i, i mi hun, fod yn gyflawn ac yn sylweddol ac yn gadarn ac yn hirymarhaus.

A dwi'n credu bod meddwl felly yn beth eitha' cyffredin. Mae hi'n anodd meddwl amdanoch chi'ch hun fel rhywbeth sydd ar y gweill, gan ei fod yn anghyflawn rhywsut, yn annigonol fel yr ydw i rwan; yn union fel y mae'n anodd meddwl amdanoch chi'ch hun fel rhywbeth nad sy'n parhau; fel rhywbeth fydd yn ymadawedig.

Mi gymrodd ddipyn o amser i mi sylweddoli bod tyfu i fyny yn golygu sylweddoli bod rhywun bob amser yn tyfu i fyny, bob amser yn newid. Ac mae'n sioc ategol sylweddoli, ar ôl dod i delerau â'r faith bod rhywun wastad yn tyfu i fyny, bod rhywun wedyn yn dechrau heneiddio hefyd.

How have you changed this past year?

Pregethwyd y bregeth hon gan yr Is-Ddeon ar Ddygwyl Saint a Merthyron Cymru, pryd y comisiynwyd Caplaniaid Anna ac y derbyniwyd grant gan Ymddiriedolaeth Gerdd y Cadeirlannau. Y thema yn ei cyfres bregethu **“Pryd y’th welsom di?”** oedd **“Crist yng Nghymru”**.

The Sub-Dean preached this sermon on the Festival of the Saints and Martyrs of Wales, when Anna Chaplains were commissioned and a grant from the Cathedral Music Trust received. The theme in our sermon series **“When was it that we saw you?”** was **“Christ in Wales”**.


I’ve always wanted to be perfect. I don’t mean being a perfectionist about work and tasks, though I can be that; and I don’t mean a striving for social graces and outward appearances.

I mean that I’ve always wanted to be perfect in myself, sure in who I am, confident in how I understand myself, coherent in how I make sense of the world. I’ve always wanted my being, my *self*, to be complete and substantial and solid and enduring.

I think that’s a common thing. It’s hard to think of one’s self in the moment as a work in progress, as inadequate somehow; just as it’s hard to think of one’s self as not enduring, as passing away.

It took me a while to realise that growing up is about realising that one is always growing up, always changing. And it’s another shock when one realises, having just come to terms with the face that one is always growing up, that one then begins to grow old as well.

I am not the same person as I was, and I am not the same person as I *will be*. I am wiser now than I was even five years ago; and, yet, in the last few years, I’ve also realized that my memory isn’t what it used to be.



Dwi ddim yr un person ag yr *oeddwn ni*, ac dwi ddim yr un person ag y *bydda'i*. Dwi'n ddoethach rwan nag oeddwn hyd yn oed bum mlynedd yn ôl; ac eto, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, dwi hefyd wedi sylweddoli nad ydi'ng nghôf fel yr oedd o. Fydd gen i fyth eto'r egni oedd gen i yn f'arddegau; fydda'i beth eto'n gallu yfed potel o win a theimlo'n effro a chlir yn y bore fel y gallwn pan oeddwn i'n fyfyrwr. Ond nid oes angen i mi ychwaith, fel yr arferwn, gael gwydraid o win i helpu i oresgyn teimlo'n swil a lletchwith pan yng nghwmni criw o bobl, oherwydd dwi'n ychydig fwy hyderus yn fy hun rwan, ac ychydig yn fwy sinigaidd am bobl eraill.

Dydw i ddim yn berffaith ynof fy hun, i mi fy hun, oherwydd dwi wastad yn newid, wastad yn cael fy ffurfio, wastad yn tyfu i fyny, wastad yn heneiddio. Mae bod yn siŵr na ddylwn i fod yn rhy siŵr ohonof fy hun yn ddigon o sicrwydd i mi.

Sut ddaru chi newid y flwyddyn ddwytha?


Da ni gyd wastad yn newid, da ni gyd wastad yn cael ein ffurfio, da ni gyd wastad yn tyfu i fyny, i gyd wastad yn heneiddio. Pan fydd yr Apostol Paul yn ysgrifennu am yr Eglwys, mae'n aml yn sôn am yr Eglwys fel corff. Mae'n naturiol meddwl am y corff hwnnw fel corff ifanc, unionsyth – y corff sy'n rhedeg y ras, fel y mae Paul yn ei rhoi hi yn un o'i Epistolau. Ond cyfoeth y ddelwedd honno o'r corff yw ei fod yn ein harwain i'r ddealltwriaeth bod yr Eglwys yn wir yn Gorff Crist, yn rhyw fath o barhad o'r Ymgnawdoliad, yn rhyw fath o realiti'r Atgyfodiad. Da chi a fi i gyd yn rhan o Gorff Crist, o Gorff Crist sydd wastad yn newid, wastad yn cael ei ffurfio, wastad yn tyfu i fyny, wastad yn heneiddio.

Sut ddaru chi newid y flwyddyn ddwytha?

Dylai'r deinamig hwnnw – newid, cael ein ffurfio, tyfu fyny, heneiddio – fod yn rhan o fywyd ar y cyd pob cymuned eglwysig leol. Ac mae'n deyrnged i'r rhai sy'n cyfrannu i'n bywyd ni ar y cyd yn y gymuned hon, ein heglwys ni, ein bod ni'n tyfu fwy fwy'n le sy'n cymryd o ddifrif y ffaith ein bod ni wastad yn newid ac yn cael ein ffurfio ac yn tyfu i fyny ac yn heneiddio.

Mi feddylia'i am Camau Bach bob bore dydd Mawrth, pan fydd y seddau yma yng Nghorff yr Eglwys yn cael eu clirio, a matiau'n cael eu gosod, a theganau a gemau yn dod i'r amlwg, a thros drigain o blant ifanc a'u rhieni yn canfod yma le diogel, a chymuned saff, a ffrydiau yma o anogaeth bugeiliol a chyngor proffesiynol. Mi welai yno blant ieuainc yn cael eu ffurfio i fod yn gyfforddus yn y fangre sanctaidd hon; ac mi wela'i oedolion ifanc yn cael cymorth wrth i'r newid aruthrol o ddod yn rhiant roi clec iddynt ar bob llaw.

Mi feddylia'i am Gôr y Gadeirlan, a'r buddsoddiad a wnawn ni mewn plant, pobl ifanc a myfyrwyr drwy ysgoloriaethau a hyfforddiant arbenigol – i gynhyrchu cerddoriaeth sy'n cynnal ein haddoliad ni, ie; ond, llawer mwy na hynny, i gynnig iddyn nhw, nhw sy'n cael eu



I'll never again have the energy that I used to have when I was a teenager; never again be able to drink a bottle of wine and feel perky in the morning as I could when I was a student. But I also don't need, as I used to, to have a glass of wine to help overcome feelings of shyness or awkwardness when I'm in company, because I'm a bit more confident in myself now, and a little bit more cynical about other people.

I'm not perfect in myself, to myself, because I'm always changing, always being formed, always growing up, always getting older. Being sure that I shouldn't be too sure of myself is sureness enough for me.


Paul's metaphor leads us into the knowledge that the Church in the Body of Christ, a sort of continuation of Incarnation, a sort of reality of Resurrection

How have you changed this past year?

We're all always changing, all of us always being formed, all of us always growing up, all of us always getting older. When the Apostle Paul writes about the Church, he often compares it to a body. It's natural to think of that as a youthful, virile, upright body – the body running the race, as Paul has it in one of his Epistles. But the richness of Paul's metaphor is that it leads us into the knowledge that the Church in the Body of Christ, a sort of continuation of Incarnation, a sort of reality of Resurrection. And you and I are all part of the Body of Christ, whose body is always changing, always being formed, always growing up, always getting older.

How have you changed this past year?

That dynamic – changing, being formed, growing up, getting older – ought to be part of the common life of every local church community. And it is a tribute to those who contribute to our common life in this, our church community, that we are becoming a place that takes seriously the fact that we are always changing and being formed and growing up and growing older.





ffurfio ac yn tyfu fyny, fynegiant gweddnewidiol o brydferthwch celfyddyd, a gwirioneddau mawl, a chariad cymuned. Dyma Gôr sy'n cynhyrchu nid cerddoriaeth yn unig ond cymeriad, sy'n meithrin bennaf nid leisiau ond eneidiau.


Ac mi feddylia'i am Jane Coutts ac Anne Eyre ac Elma Taylor, i'w comisiynu heddiw fel Caplaniaid Anna – fel gweinidogion yn y fan hon ac yn ein cymuned leol a fydd â gofal bugeiliol arbennig dros y rhai sy'n oedrannus – y rhai yng cartrefi nyrsio a chartrefi gofal ein dinas, ond hefyd y rhai sy'n symud i aelwyd lai ar ôl i deulu adael, neu'n ymdopi â salwch sy'n gysylltiedig ag oedran, neu'n galaru am gymar oes, neu'n dechrau teimlo ing emosynol, ysbrydol y newid a ddaw yn sgil hydref bywyd, profiad na ddylai fod yn llai cythryblus nag ymdopi â nwydau ieuencid a phryderon y teulu ifanc.

Mae Corff Crist wastad yn tyfu i fyny, yn heneiddio; wastad yn newid, wastad yn cael ei ffurfio.



I think of Camau Bach every Tuesday morning, when the pews here in the Nave are cleared away, and mats are laid down, and toys and games emerge, and over 60 young children and their parents find here a safe place, a community of care, and access to pastoral encouragement and professional advice. I see there, at Camau Bach, young children being formed to be comfortable in this holy place; I see there young adults being upheld as the overwhelming changes of becoming a parent are buffeting them on every side.

I think of our Cathedral Choir, and the investment we make in children, young people and students through bursaries, scholarships and expert tuition – to produce music that upholds our worship, yes; but, much more than that, to offer to them, as they are formed and change and grow up, an exposure to the beauty of culture, and the truth of worship, and the love of community. As we give thanks today for the support that we've received from the Cathedral Music Trust to





Sut ddaru chi newid y flwyddyn ddwytha?

Mi all sicrwydd a phendantwydd iaith yr Eglwys weithiau beri i mi deimlo braidd yn ddiffygiol am fod yn llai na pherffaith, yn llai na sicr, yn llai na siwr ohono'i fy hun. "Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw," medde ni bob Sul yn y Credo; ond weithiau mi wn i 'mod i'n credu neu yn ymddiried yn llai calonog nag y dylwn i, yn credu llai na dwi'n ei ddweud. Mae'r weledigaeth o Lyfr y Datguddiad a glywsom yn ein darlleniad cyntaf yn un o ogoniant a pherffeithrwydd llwyr y nefoedd lle mae llais tyrfa fawr fel sŵn taranau yn llefain am "y Sanctaidd Un ein Duw... yn teyrnasu." Gyfochrog â'r weledigaeth honno pa mor fregus ydi 'mreuder i? – mor annigonol fy amherffeithrwydd i.

Ond wrth i ni ddiolch yn y Cymun hwn am Saint a Merthyron Cymru, fe gofiwn ni mai mewn llestri pridd, eiddil fel ni y mae ffydd a gobaith a chariad wedi bod yn hysbys yn y wlad hon dros y canrifoedd. Wrth inni lawenhau yn y rhai fu'n bererinion fel ninnau yn y wlad a'r genedl hon dros dreigl amser, ac sydd bellach yng nghoflaid agos Duw, fe gofiwn ni fod perffeithrwydd yn rywbeth yr hiraethwn ni amdano fo, y'n gelwir iddo fo, ond na allwn byth mo'i gyrraedd na'i gyflawni ein hunain heb ras goruwchnaturiol – heb y gras goruwchnaturiol hwnnw a addawyd inni cyn inni gael ein creu, ac a fydd yn ein cynnull ni yn y diwedd pan fydd tyfu i fyny a heneiddio i gyd ar ben. Tan hynny, chi a fi, yn ein amherffeithrwydd yn y fangre hon, am y flwyddyn arall i ddod, be am i ni barhau i newid hefo'n gilydd. **[B]**

support the life of our Choir, we give thanks this funding supports not just music but character, sustaining not just singers but souls.

And I think of Jane Coutts and Anne Eyre and Elma Taylor, to be commissioned today as Anna Chaplains – as ministers in this place and in our local community who will have a special pastoral care for those who are elderly or becoming elderly – for those in our city’s nursing homes and care homes, but also for those downsizing after family has left home, or coping with age-related illnesses, or mourning the death of a life-partner, or begin to feel the emotional, spiritual pinch of the change that evening brings, which should be no less tumultuous than the passions of youth and the pressures of early adulthood.


The Body of Christ is always growing up, getting older; always changing, always being formed.

How have you changed this past year?

The sureness of the language of the Church can sometimes make me feel a bit useless about being less than perfect, less than sure, less than fully formed. “I believe and trust in one God,” we say every Sunday in the Creed; yet sometimes I know that I believe or trust less happily, less heartily than I ought to, less than I’m saying. The vision from the Book of Revelation that we heard in our first reading is of the total glory and perfection of a heaven where the voice of a great multitude, cries out, like mighty thunder-peals, “God, the Almighty reigns.” Against which my fragility, my less-than-perfection, feels so inadequate sometimes.

But as we give thanks at this Eucharist for the Saints and Martyrs of Wales, we remember that it is in frail, earthen vessels like ours that faith and hope and love have been known in this land over the centuries. As we rejoice in those who knew this land and nation, and now know God nearly and dearly, we recall that perfection is something that we yearn for, that we’re called to, but that we can never achieve ourselves without supernatural grace – without that supernatural grace that has been promised us before we were created, and will gather us up when growing up and getting old are all at an end.

Till then, imperfect you, imperfect me, in this place, for the year to come, let’s keep on changing together. **[B]**






Yn luniwr ac yn broffwyd A maker and a seer

Ym mis Hydref bu inni gynnal ein **Tarannon** gyntaf, Gŵyl Cred a'r Celfyddydau y Gadeirlan. Cawsom bedwar diwrnod byrlymus yn gyforiog o gerddoriaeth, barddoniaeth, celf, hanes, addoliad, trafodaeth a sgwrs.

Yng Ngosber ar Gân agoriadol yr ŵyl, pregethodd **yr Athro Helen Wilcox, Canon Lyfrgellydd newydd y Gadeirlan**, bregeth yn canolbwyntio ar allu'r traddodiad barddol i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r dwyfol. Dyma atgynhyrchu pregeth Canon Wilcox yma.

In October, we held our first **Tarannon**, the Cathedral's new Festival of Religion and the Arts. We enjoyed a bustling four days teeming with music, poetry, visual art, history, worship, discussion and conversation.

At the festival's opening Choral Evensong, **Prof. Helen Wilcox, the Cathedral's new Canon Librarian**, preached a sermon focusing on the art of poetry's ability to deepen our understanding of the divine. We reproduce Canon Wilcox's sermon here.



I saw eternity the other night,
Like a great ring of pure and endless light.
All calm, as it was bright,
And round beneath it, time in hours, days, years
Driv'n by the spheres
Like a vast shadow mov'd; in which the world
And all her train were hurl'd.

Gyda geiriau llinellau agoriadol cerdd gan y bardd Cymreig o'r 17eg ganrif, Henry Vaughan, hoffwn agor myfyrdod byr ar y berthynas rhwng barddoniaeth a ffydd, fel rhan o'r *Ŵyl y penwythnos* hon ar Gred a'r Celfyddydau yma yn y Gadeirlan. Mae cerdd Henry Vaughan yn mynd i'r afael â chwestiwn amhosib, un, heb os, sy'n destun trafod i ninnau hefyd, o dro i dro – beth ydy tragwyddoldeb? Sut y gallen ni, fodau dynol, ddychmygu'r hyn sydd y tu hwnt i ddychymyg? Sut mae modd i ni feddwl y tu allan i gyfyngiadau amser ac iaith? Mae Henry Vaughan yn agor ei gerdd bron yn ddigyffro, "*I saw eternity the other night*" – ac mae'n cymryd ennyd fach inni sylweddoli yn union pa mor fawr ydy'r honiad hwn. Ac yna, aiff yn syth at ddelwedd anhygoel – mae tragwyddoldeb yn debyg i "*a great ring of pure and endless light*," cylch heb iddo ddiwedd na chornel ond yn ei olau pur yn fythol symud yn ddigynnwrf. Mae cerdd Henry Vaughan yn gweithio trwy gyferbyniadau – ogylch ac islaw llonyddwch y cylch perffaith, digyfnewid hwn mae teyrnas amser, a rennir yn "oriau, dyddiau, blynyddoedd" ac yn symud yn fygythiol fel cysgod enfawr. Ac i'r lle hwn yr hyrddir ein byd – syniad anghysurus, brawychus hyd yn oed, gan osod popeth mewn persbectif. Mae agoriad cerdd Henry Vaughan yn cynnig inni weledigaeth, fframwaith o eiriau trwy'r hyn y'n hebryngir ni i danio ein dychymyg a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r hyn y gall cysyniad anchwiliadwy tragwyddoldeb ei olygu. Gall barddoniaeth gyfleu inni yr hyn nad oes modd ei fynegi mewn geiriau syml, plaen. Fel y dywed Pauline Matarasso, mae cerddi'n cyrraedd gwirioneddau sydd y tu hwnt i flaenbys rhesymeg.


Mae gweledigaeth trawiadol cerdd Henry Vaughan wedi awgrymu rhai o'r ffyrdd y gall barddoniaeth weithio mewn partneriaeth â chrefydd. I adeiladu ar hyn, hoffwn wneud tri phrif bwynt am y rhyngweithio sydd rhwng y ffydd Gristnogol a'r ffurf benodol hon o gelfyddyd. Yn gyntaf, mae'n ddefnyddiol dwyn i gof fod y Beibl ei hun yn llawn barddoniaeth! Does ond rhaid inni feddwl am y Salmuau, Caniad Solomon, llyfr Job a phroffwydoliaethau Eseaia, er enghraifft, heb sôn am y myrdd o adegau, yn enwedig yn yr Hen Destament, lle mae rhyddiaith yn ildio i farddoniaeth neu ganu mewn cyfnodau o ddathlu neu alaru. Mae holl ystod profiadau ac emosiynau dynol i'w cael mewn barddoniaeth feiblaidd, o ddathlu gorfoleddus trugaredd Duw i deimladau chwerw dicter a phoen fel y rhai a fynegir


I saw eternity the other night,
Like a great ring of pure and endless light.
All calm, as it was bright,
And round beneath it, time in hours, days, years
Driv'n by the spheres
Like a vast shadow mov'd; in which the world
And all her train were hurl'd.



With these opening lines of a poem by the 17th century Welsh poet, Henry Vaughan, I'd like to begin a short reflection on the relationship between poetry and faith, as part of this weekend's Festival of Religion & the Arts here at the Cathedral. Vaughan's poem tackles an impossible question, one that no doubt we all wrestle with from time to time – what is eternity? How can we human beings imagine the unimaginable? How can we think outside the constraints of time and language? Vaughan begins almost casually – “I saw eternity the other night” – and it takes us a moment to realise just what an enormous claim this is. And then he goes straight into an amazing image – eternity is “like a great ring of pure and endless light,” a circle which has no ends or corners but in its pure light moves serenely for ever. Vaughan's poem works through contrasts – beneath the calmness of this perfect, timeless circle is the realm of time which is fragmented into “hours, days, years” and moves “like a vast shadow,” menacingly. And it is here that our world is “hurl'd” – an uncomfortable, even shocking idea, putting everything into perspective. The opening of Vaughan's poem offers us a vision, a framework of words through which we are led to activate our imagination and deepen our understanding of what the almost unfathomable concept of eternity might mean. Poetry can help us to express what can't be said in a more straightforward way. As Pauline Matarasso has said, poems reach truths that lie beyond the fingertips of logic.

The startling vision of Vaughan's poem has suggested some of the ways in which poetry can work in partnership with religion. Building on this, I'd like to make three main points about the interaction of the Christian faith with this particular art form. First, it's helpful to recall that the Bible itself is full of poetry! We only have to think of the Psalms, the Song of Songs, the book of Job and the prophecies of Isaiah, for example, not to mention the countless moments, particularly in the Old Testament, when prose gives way to verse or song at moments of celebration or lamentation. All human experiences and shades of emotion are present in biblical poetry, from the joyous celebration of God's compassion to the bitter feelings of anger and hurt such as were expressed in this evening's Psalm. The language of the Bible is also steeped in similes and





yn ein Salm heno. Mae iaith y Beibl hefyd yn llawn cymariaethau a metafforau, y dyfeisiau rhethregol sylfaenol y mae awduron yn eu defnyddio i ddarlunio profiad neu emosiwn trwy ei gyffelybui rhywbeth mwy cyfarwydd. Mae testun anthem y Salm rydyn ni newydd ei glywed yn mynegi siom y brenhinoedd trwy ei gymharu â phoen gwraig yn esgor, tra bo’u hofnau a’u crynodod i’w gyffelybu i effaith dychrynlyd gwynt y dwyrain a chwalodd longau Tarshish. Ac yn y Testament Newydd, mae Iesu’n dysgu trwy ddamhegion, straeon neu alegoriau sydd, fel barddoniaeth, yn cael effaith unionsyth ond sydd hefyd angen dehongli meddylgar. Yn Efengyl Sant Ioan, mae’r gyfres o ddywediadau “Myfi” yn farddonol eu natur, yn gryno, bachog ac yn seiliedig ar drosiadau i gyfleu aruthrol ddyfnder ystyr – “Myfi yw’r ffordd,” “Myfi yw’r bugail da,” “Myfi yw bara’r bywyd.”

Fy mhwynt cyntaf ydy, felly, mai’r Beibl ydy’r model sy’n gwneud barddoniaeth nid yn unig yn dderbyniol, ond yn ganolog i’n profiadau fel Cristnogion. Mae’r offeirad a’r awdur, Mark Oakley, yn mynd cyn belled ag i alw barddoniaeth “iaith frodorol ffydd.” Ac felly fy ail bwynt ydy y gall barddoniaeth am brofiad cred roi cymorth ac ysbrydoliaeth inni yn ein bywydau ysbrydol ein hunain. Meddyliwch ar yr emynau a genir ganddon ni heno – canu sy’n mynegi mawl ar ffurf gyhoeddus, gain. Meddyliwch am farddoniaeth Cymro arall o’r 17eg ganrif, George Herbert, geiriau o’i eiddo a ganwn yn rheolaidd (“*Let all the world in every corner sing*”; “*King of Glory, king of peace*”; “*Teach me, my God and King*”) ond sydd â’i gerddi hefyd yn dwyn bendith, o’u darllen mewn tawel ddefosiwn. Yn ei gwmni, canfyddwn lais i’n rhwystredigaethau â’n hunain a chyda Duw – mae un o’i gerddi crefyddol yn agor gyda’r geiriau hyn, “*I struck the board and cried, No more!*” – ond mewn cerddi eraill, cawn ein hunain yn cael ein dyrchafu mewn gorfoledd, fel gyda’i gerdd ar gyfer y Pasg: “*Rise, heart, thy lord is risen*”. Mynegodd y bardd o’r 19eg ganrif, Gerald



metaphors, the basic rhetorical devices by which writers depict an experience or an emotion by likening it to something more familiar. The Psalm text of the anthem we have just heard expresses the dismay of the kings by comparing it to the pain of a woman in labour, while their fear and trembling is likened to the terrifying effect of the east wind which destroyed the ships of Tarshish. And in the New Testament, Jesus teaches through parables, stories or allegories which, like poetry, have an immediate impact but also require thoughtful interpretation. In Saint John's Gospel, the series of "I am" sayings are poetic in nature, being condensed, pithy and based on metaphors to convey enormous depth of meaning – "I am the way," "I am the good shepherd," "I am the bread of life."

My first point, then, is that the Bible is the model which makes poetry not only acceptable but central to our experience as Christians. The priest and writer, Mark Oakley, goes so far as to call poetry the "native language of faith." And so my second point is that poetry about the experience of belief can support and inspire us in our own spiritual lives. Think of the hymns we are singing tonight – verse expressing praise in a communal and finely structured form. Think of the poetry of another 17th century Welshman, George Herbert, whose words we sing regularly ("Let all the world in every corner sing"; "King of Glory, king of peace"; "Teach me, my God and King") but whose poems also reward quiet devotional reading. In his company we can give voice to our frustrations with ourselves and with God – one of his religious poems begins, "I struck the board and cried, No more!" – but in other poems we can find ourselves uplifted with joy, as in his poem for Easter: "Rise, heart, thy lord is risen". The 19th century poet, Gerald Manley Hopkins, writing much of his poetry here in North Wales, gave expression to even greater extremes of religious feeling. Aware that the world is "charged with

Manley Hopkins, a fu'n cyfansoddi llawer o'i waith yma yng ngogledd Cymru, eithafion fwy fyth o deimladau crefyddol. Yn ymwybodol fod y byd yn "charged with the grandeur of God," mae'n dathlu rhyfeddodau'r byd naturiol, gan agor un gerdd fel hyn, "Glory be to God for dappled things / For skies of couple-colour as a brindled cow"! Ond yn fuan, mae ei hwyliau'n newid ac mewn cerdd arall, mae'n cwestiyntu Duw mewn anobaith, "Comforter, where, where is

Celfyddyd mewn geiriau, hyfrydwch i'r golwg a'r clyw – ond hefyd yn weledigaeth, ac yn ffordd hynod o edrych o'r newydd ar y byd


your comforting?" Mae'n sicr ein bod ninnau, heb os, wedi profi yr amrywiaeth emosiynau hynny yn ein bywydau ysbrydol, ond mae cerddi'n ein galluogi eu hadnabod, cydnabod a'u deall yn well. Mae cerddi defosiynol, fel gweddïau, yn ein dwyn i ymddiddan â Duw, ac yn ein harwain at ddarganfyddiadau, yr annisgwyl a hyd yn oed adegau o ryfeddu. Maen nhw'n cynnig egwyl o oedi yng nghanol bwrlwm bywyd, a'n dwyn, am ennyd, i'r hyn y mae T. S. Eliot yn ei ddisgrifio fel "the still point of the turning world."

Yn olaf, dw i am awgrymu nad cerddi sy'n benodol ddefosiynol ydy'r unig rai sy'n gallu cyfoethogi ein bywyd ffydd, ond hefyd cerddi seciwlar sy'n cynnig cyfrwng cyfarfyddiad â rhywbeth trosgynnol, hyd yn oed os nad Duw ydy hwnnw mewn enw. Dadleuodd yr awdur Sir Philip Sidney, o gyfnod Oes Elisabeth y Cyntaf, fod i'r bardd rôl ddeublyg – i fod yn luniwr ac yn broffwyd. Mae hyn yn grynoded defnyddiol o'r modd y mae barddoniaeth yn gweithio, fel rhywbeth sy'n cael ei saernïo – celfyddyd mewn geiriau, hyfrydwch i'r golwg a'r clyw – ond hefyd fel gweledigaeth, ffordd hynod o edrych o'r newydd ar y byd. Dyma lle y daw'r gerdd rydych chi newydd ei chlywed i mewn – "Gannet" gan Gillian Clarke, cyn-fardd cenedlaethol Cymru. Nid cerdd grefyddol ydy'r gerdd fechan hon ac eto, yn y saernïo ac yn ei chelfyddyd, mae'n agor ein llygaid i weld yr aderyn mewn goleuni newydd:



the grandeur of God” he celebrates the strange wonder of the natural world, even beginning a poem, “Glory be to God for dappled things / For skies of couple-colour as a brindled cow”! But soon his mood changes and in another poem he is asking despairingly of God, “Comforter, where, where is your comforting?” No doubt we have all felt such varied emotions in our spiritual lives, but poems enable us to recognise and understand them more clearly. Devotional poems, like prayer, bring us into conversation with God, and lead us to discoveries, surprises, even to moments of wonder. They offer a pause in the rush of daily life, and take us, for a moment, to what T. S. Eliot described as “the still point of the turning world.”

Finally, I want to suggest that it is not only explicitly devotional poems which can enrich our life of faith, but also secular poems that offer an encounter with something transcendent, even if it is not named as God. The Elizabethan writer, Sir Philip Sidney, argued that the poet has two roles – to be a maker and a seer. This is a useful summary of the ways in which poetry works, as something crafted – a work of art in words, a delight to see and hear – but also as a vision, an arresting way of looking afresh at the world. This is where the poem that you have just heard read comes in – “Gannet” by Gillian Clarke, our former national poet of Wales. This short poem is not a religious work, yet in its craft and artistry it opens our eyes to see the bird in a new way:



Gannet

hangs on the wind on motionless wings
and falls a hundred feet

on a gleam of fish.
The sea gasps

as the hiss of iron
in the farrier's bucket.

The black wave,
a white-hot knife of light,

sea's retina dazzled
by the sign of the cross.

Mae'r gerdd yn bortread gwych o'r 'deryn môr a'i ddisgyniad rhyfeddol o gyflym am wyneb y dŵr o weld cipolwg o'i bwyd – *"a gleam of fish."* Mae cyflymder arswydus plymiad y gwylanwydd yn ddigon i wneud i'r môr "gasp", fel person yn dal ei wynt, gan wneud sŵn na ellir ei ddisgrifio ond trwy baralel annisgwyl – yr hisian a glywir pan drewir haearn poeth mewn bwced o ddŵr. Mae'r iaith drosiadol wedi'i phlethu'n gywrain – gwelir delwedd yr haearn yn y geiriau *"white-hot"*, a *"gleam"* – gloywder y pysgod, yn cael ei hategu ychydig linellau'n ddiweddarach yn y *"knife of light"* sy'n dallu *"retina"* r môr. Ond gwedd fwyaf annisgwyl cerdd Gillian Clarke ydy'r frawddeg olaf, lle gwelir ffurf yr aderyn yn ddisymwth yn troi'n *"sign of the cross."* Cerdd sy'n edmygedd o ffenomenon natur yn troi mewn chwinciad yn ddatguddiad, gyda lledawgrym o'r dwyfol.

Felly, gadewch inni roi diolch i Dduw am feirdd, crefyddol a seciwlar, sy'n ein hysbrydoli i ddarganfod y cysegredig ym manylder lleiaf y greadigaeth, ac sydd â'r modd a'r ddawn i fynegi'r pleserau a'r gofidiau rydyn ni oll yn eu rhannu. Diolchwn i Dduw am gyfoeth barddonol yr Ysgrythrau Sanctaidd, sy'n ein dysgu ac yn ein llonni, ac yn ysbrydoliaeth i feirdd ein tywys yn gyfrwng cyfarfyddiadau â Duw. Gweddïwn, Arglwydd, inni allu agor ein hunain i ddirgelion dy gariad fel y'u datgelir trwy awen barddoniaeth, a gofynnwn ichi ein harwain i ddealltwriaeth dyfnach fyth a cherddediad agosach â thi. Amen. **[B]**

Gannet

hangs on the wind on motionless wings
and falls a hundred feet

on a gleam of fish.
The sea gasps

as the hiss of iron
in the farrier's bucket.

The black wave,
a white-hot knife of light,

sea's retina dazzled
by the sign of the cross.

The poem is a brilliant evocation of the seabird and its amazingly swift descent into the water at the slightest hint of its food – “a gleam of fish”. The shocking speed of the gannet’s dive makes the sea ‘gasp’ as though it were a person, making a sound which can only be described by an unexpected parallel – the hiss that is heard as hot iron enters a bucket of water. The metaphorical language is wonderfully interwoven – the image of the iron is picked up in “white-hot”, and the “gleam” of the fish is recalled a few lines later in the “knife of light” that dazzles the “sea’s retina.” But the most surprising aspect of Clarke’s poem is its final line, in which the bird’s shape suddenly becomes a “sign of the cross.” A poem of admiration for a phenomenon of nature turns in a flash into a revelation, a hint of the divine.

So let us thank God for poets, religious and secular, who inspire us to discover the sacred in the smallest details of creation, and who give expression to the joys and sorrows that we all share. We thank God for the poetic riches of the Holy Scriptures which teach and delight us, and pave the way for poets to lead us into encounters with God. We pray, Lord, that we may open ourselves to the mysteries of your love as revealed in poetry, and we ask you to guide us into ever deeper understanding and a closer walk with you. Amen. **[B]**






SHELTER
CYMRU



Ein Helusen Nadolig 2023 Our 2023 Christmas Charity

Bob blwyddyn, rydyn ni'n codi pres yn ein gwasanaethau dros y Nadolig ar gyfer elusen leol. Eleni, byddwn ni'n cefnogi Shelter Cymru, sy'n rhoi cyngor ar dai a chymorth tenantiaeth. **Frankie Mairs** o Shelter Cymru sy'n egluro pam mae gwaith yr elusen yn fwy hanfodol nag erioed.

Each year, we raise funds at our Christmas services for a local charity working in our area. This year, we'll be supporting Shelter Cymru, which provides housing advice and tenancy support. **Frankie Mairs** from Shelter Cymru explains why its work is more essential than ever.



Mae'n 10.00am ar fore dydd Mawrth ar ddechrau mis Rhagfyr, ac mae Barbara ar y ffôn yn siarad â dynes o Hirael. Mae ei theulu'n wynebu cael eu troi allan o'u cartref rhent preifat oherwydd bod y landlord wedi penderfynu gwerthu. Mae ganddyn nhw lai na mis cyn bod yn rhaid iddyn nhw roi'r allweddi yn ôl, ond fel llawer o bobl sy'n chwilio am lety i'w rentu ledled Gogledd Cymru, mae llai a llai o eiddo fforddiadwy ar gael.

Yn ystod mis Rhagfyr, bydd Barbara a'i chydweithwyr yn delio â dwsinau o achosion tebyg yng Ngwynedd yn unig. Yfory, bydd Barbara ar ddyletswydd yn y llys sirol yng Nghaernarfon; dyma'r diwrnod pan fydd y llys yn delio ag adfeddiannau morgais a rhent, a bydd Shelter Cymru wrth law i gynnig cyngor am ddim ac i gynrychioli pobl o flaen y barnwr i'w cadw yn eu cartref.

Mae'n waith sy'n teimlo hyd yn oed yn fwy hanfodol yr adeg hon o'r flwyddyn – i'r ddynes o Hirael, gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng ei theulu yn treulio'r Nadolig gartref neu mewn llety dros dro.


Ledled Cymru, bydd bron i 3,500 o blant yn deffro ar fore Nadolig mewn llety dros dro. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu heb y cyfleusterau i wneud darn o dost, heb sôn am goginio cinio Nadolig. Mae'r niferoedd yn uwch nag erioed, a dyna'r rheswm pam mae apêl Nadolig Shelter Cymru yn canolbwyntio ar yr help y gallwn ni ei gynnig i deuluoedd sy'n wynebu digartrefedd.

Ond mae ein gwaith yn dod yn fwyfwy pwysig drwy gydol y flwyddyn. Cafodd cyfanswm o 467 o aelwydydd yng Ngwynedd

**Roedd fy ngweithiwr cymorth
yn wych... Byddwn i'n dweud fel
sefydliad eich bod chi'n wych.**

**My support worker was brilliant...
I'd say as an organisation you're
brilliant.**

Adborth gan un y bu i Shelter Cymru eu helpu
Feedback from someone helped by Shelter Cymru






